**(HCC 742)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 9.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 3 Mawrth 2017**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)

**Tîm Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Prys Morgan (Rheolwr Cysylltiadau â'r Diwydiant a Chyfnewid Gwybodaeth)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
Owen Roberts (Arweinydd Cyfathrebu)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

## 1. Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Canol - diwedd Ionawr 2017*

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn Nerbyniad Blwyddyn Newydd Swyddfa Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd ym Mae Caerdydd.

Ar 23 Ionawr 2017, Bu'r Cadeirydd yng ngweithdy'r Polisi Adnoddau Naturiol (NRP). Trefnwyd y cyfarfod er mwyn trafod Ymgynghoriad NRP a fyddai'n dod i ben ar 13 Chwefror 2017. Cyhoeddid y Polisi ym mis Mawrth 2017 a byddai'n nodi polisïau Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu tuag at reoli adnoddau naturiol ynghyd â'r risgiau, cyfleoedd a blaenoriaethau wrth weithredu.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ym Mrecwast Ffermdy blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yn Adeilad y Lanfa, Bae Caerdydd.

*Chwefror 2017*

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Beef and Lamb New Zealand i HCC, sef Andrew Morrison, y Cyfarwyddwr a Ben O'Brien, y Rheolwr Rhanbarthol yn Ewrop. Gwerthfawrogodd Swyddogion Gweithredol HCC ynghyd â chynrychiolwyr o'r ddau Undeb Amaethyddol a'r Gymdeithas Ddefaid

Genedlaethol drafodaeth o gwmpas y bwrdd gyda'r ymwelwyr am yr ansicrwydd am y fasnach ryngwladol yn dilyn Brexit, yr UE yn rhydd o dariffiau, a thueddiadau'r farchnad ar hyn o bryd.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o'r Ford Gron Amgylchedd a Materion Gwledig ar 6 Chwefror 2017. Roedd y Prif Weinidog yn bresennol yn y cyfarfod hwn pan drafodwyd goblygiadau Brexit i bobl ac economi Cymru.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Nghynhadledd Flynyddol yr NFU yn Birmingham. Y thema elen oedd "Brexit – cynhwysion ar gyfer llwyddiant".

*Mawrth 2017*

Bu'r Cadeirydd yn nerbyniad Dewi Sant Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ar 1 Mawrth 2017.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Trafodaeth a allai ddigwydd mewn perthynas â Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 13 Ionawr 2017 (HCC 732)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 13 Ionawr 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*IBERS – Dyfodol y Diadelloedd Defaid*

Roedd HCC wrthi'n paratoi papur ar gyfer IBERS a oedd yn edrych ar gynnal, cofnodi a hanes y diadelloedd.

Nodwyd bod IBERS yn dal i ystyried dewisiadau ar gyfer y diadelloedd, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer ymchwil, arloesedd neu weithgareddau arddangos. Byddai'r Rheolwr Cysylltiadau â'r Diwydiant a Chyfnewid Gwybodaeth yn cyflwyno papur mewn cyfarfod â chynrychiolwyr IBERS a oedd i fod i ddigwydd ar 23 Mawrth 2017.

*Cyflawniadau Cyswllt Ffermio o Faterion Strategol*

Cynhaliwyd cyfarfod ar 13 Ionawr 2017 rhwng Aelodau Bwrdd HCC, Gweithrediaeth HCC a Swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod yr uchod.

Roedd y trafod yn canolbwyntio ar heriau allweddol megis iechyd a lles anifeiliaid, proffidioldeb a'r effaith economaidd yn gyffredinol ar ddiwydiant cig coch Cymru.

Cydnabuwyd bod y gwasanaeth Cyswllt Ffermio yn gorfod delio â phoblogaeth fawr o ffermwyr ag anghenion eang ac amrywiol. Nodwyd bod gan Gyswllt Ffermio grwpiau strategol a gweithredol i'r diwydiant, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant.

Daeth y cyfarfod i'r casgliad bod angen i Gyswllt Ffermio fynd i'r afael â nodau strategol y diwydiant ac y dylid gwerthuso'r gwasanaeth yn ôl canlyniadau mesuradwy.

*Addysgu Bwyd a Maeth mewn Ysgolion*

Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, ynghylch pryderon y Bwrdd am ddyfodol addysg bwyd mewn ysgolion. Y ddau brif pwynt a godwyd yn yr ohebiaeth oedd y byddai o fantais amlwg i staff addysgu gael rhagor o weithdai ymarferol ac adnoddau (i ategu Cwricwlwm Bwyd a Maeth TGAU) a'r gwir bryderon ynghylch hyfywedd hirdymor y maes hwn o addysgu.

Cafwyd ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg yn cydnabod pryderon HCC ac yn tynnu sylw at y gwaith parhaus gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth mewn ysgolion.

Gwahoddwyd HCC i gyfarfod â Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r maes hwn i drafod y materion a godwyd.

Canmolwyd HCC gan yr Ysgrifennydd Cabinet am gynhyrchu adnoddau addysgol dwyieithog a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cig coch mewn diet cytbwys.

*Y Gymdeithas Enwau Bwyd Gwarchodedig (PFN)*

Bu'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd Cyfathrebu mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Enwau Bwyd Gwarchodedig yn Defra, Llundain ar 18 Ionawr 2017 pan oedd t Gweinidog Amaethyddiaeth George Eustice AS yn bresennol.

Yn y cyfarfod, buwyd yn trafod diogelu'r cynlluniau Enwau Bwyd Gwarchodedig a brandiau premiwm eraill ar ôl Brexit.

Roedd nifer fawr o gynrychiolwyr sydd â statws PFN ar gynhyrchion ar hyn o bryd yn y cyfarfod a chytunwyd yn unfrydol y dylai cynlluniau tebyg fod ynghlwm wrth gyfraith y DG er mwyn eu gwarchod ar ôl Brexit.

Byddai'r trafod yn parhau gyda Defra, y Gymdeithas Enwau Bwyd Gwarchodedig, deiliaid PGI / PFN a'r Llywodraethau datganoledig.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 733)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ŵyn Ysgafn*

Roedd HCC wedi trefnu cyfarfod o'r Grŵp newydd ar 20 Chwefror 2017 gyda chynrychiolwyr o ledled y gadwyn gyflenwi.

Cytunodd y Grŵp ynghylch yr Amodau Gorchwyl a thrafodwyd nifer o faterion gan gynnwys yr anawsterau economaidd mewn marchnadoedd traddodiadol ar gyfer wŷn ysgafn, tueddiadau'r diwydiant yn yr hirdymor o ran delio mewn toriadau yn hytrach na charcasau cyfan, potensial a datblygiad marchnadoedd newydd, gwelliant genetig a chynlluniau amgylcheddol.

Byddai HCC yn cynhyrchu adroddiad am y sector Ŵyn Ysgafn, gan dynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd ac amlinellu camau ymarferol y gellid eu cymryd. Defnyddid yr adroddiad wrth lunio strategaeth i liniaru'r ansicrwydd ar gyfer y sector hwn.

Cynhelid cyfarfod arall o'r Grŵp yn ystod mis Mai 2017.

*Cig Defaid Drwy'r Croen*

Cynrychiolwyd HCC mewn cyfarfod i'r diwydiant ar 9 Chwefror 2017 i drafod y camau nesaf wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer cynhyrchu a gwerthu cig defaid mwg drwy'r croen yn y DG.

Roedd cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA) a gadeiriodd y cyfarfod), AHDB, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), yr Undebau Amaethyddol a Llywodraeth Cymru yn bresennol, ynghyd a dirprwyaeth o siop fwyd Affricanaidd yng Nghaerdydd.

Ar ôl trafodaeth derbyniodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd taw'r unig ddewis oedd derbyn barn gyfredol yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd (EFSA). Mae'n ddigon tebygol y buasai'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi bod yn fodlon cyflwyno'r argymhelliad gwreiddiol i EFSA ; fodd bynnag,

cafwyd cwestiynau gan EFSA na chafodd eu trafod ar gyfer y cyflwyniad gwreiddiol. Roedd AHDB yn awyddus i symud ymlaen trwy gynnig cyllido er mwyn mynd i'r afael â materion a godwyd gan EFSA a datblygu protocol ar gyfer cynhyrchu cig defaid drwy'r croen. Os bydd yn llwyddo, gallai Pwyllgor Ymchwil a Datblygu'r Cydfyrddau Ardoll reoli darpariaeth y prosiect ymchwil.

*Iechyd Anifeiliaid – Grŵp Llywio Parasitoleg Cymru*

Byddai HCC yn trefnu cyfarfod o'r uchod ar 28 Mawrth 2017.

Nodwyd bod HCC ar hyn o bryd yn trafod gyda swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru ynghylch ffurfio Pwyllgor Iechyd a Lles Anifeiliaid i sicrhau cydgysylltiad rhwng cynhyrchwyr, y diwydiant, milfeddygon, Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 734)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2016 (HCC 735)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 736)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

e. *I dderbyn crynodeb o'r gwerthusiad o ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru PGI, 2016*

Cafwyd cyflwyniad o'r uchod gan y Rheolwr Cysylltiadau â'r Diwydiant a Chyfnewid Gwybodaeth.

f. *I dderbyn crynodeb o'r gwerthusiad o ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru PGI, 2016*

Cafwyd cyflwyniad o'r uchod gan y Rheolwr Cysylltiadau â'r Diwydiant a Chyfnewid Gwybodaeth.

7. **I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2017 / 2018 (HCC 737)**

a. *I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Gweithredol drafft HCC 2017 / 2018 sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd ar 13 Ionawr 2017 (HCC 737)*

Nodwyd y cafwyd adborth ar ôl y cyfarfod Bwrdd blaenorol mewn perthynas â'r Cynllun gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y sylwadau eu hystyried a'u gweithredu'n unol a hynny gan y Weithrediaeth.

Cymerwyd bod y crynodeb o'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol wedi eu darllen a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

b. *I gymeradwyo Cynllun Gweithredol drafft HCC, 2017 / 2018 (HCC 738)*

Cymerwyd bod Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2017 / 2018 wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

8. **I ystyried drafft o Gynllun Corfforaethol HCC 2017 / 2020 (HCC 739)**

Cymerwyd bod Cynllun Corfforaethol HCC ar gyfer 2017 / 2020 wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

9. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Roedd AHDB, HCC a Quality Meat Scotland (QMS) wrthi'n trafod y mater, gan obeithio datrys y mater o famwladoli'r ardoll cig coch.

Cynhaliwyd cyfarfod ar 21 Chwefror 2017 rhwng Prif Weithredwr HCC; Jane King, Prif Weithredwr AHDB; a Jim Mclaren, Cadeirydd QMS, ynghylch egwyddorion cyffredinol gweithio ar y cyd o dan y trefniad "dro dro", sef bod AHDB yn neilltuo swm o £2m ar gyfer 2017 / 2018 i gynnal rhaglen o weithgareddau a fyddai o fudd i dalwyr ardoll gwartheg, defaid a moch.

Roedd HCC a QMS wedi gofyn am addewid y byddai unrhyw weithio ar y cyd yn gydraddol o ran gweithgareddau cyllido.

Felly, gofynnwyd i AHDB gyfrannu £1m i'r arian sydd wedi'i neilltuo er mwyn cyfateb cyfraniad yr Alban a Chymru. Cydnabuwyd y rhesymeg, ond ni chafwyd ymrwymiad pendant gan AHDB.

Y camau nesaf oedd cael hyd i unigolion o'r gwahanol gyrff i gymryd rhan yn y broses (Amodau Gorchwyl, etc.) a llunio manylion am weithgareddau i'w cyllido.

Roedd y Byrddau Ardoll yn awyddus i gael cytundeb ynghylch Ardoll wedi ei neilltuo cyn gynted â phosibl.

10. **I gael diweddariad o gyfarfod Bord Gron Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru**

Roedd y trafod yn y fforwm hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau posibl Brexit ar fynediad i'r farchnad, Argaeledd gweithwyr mudol o'r UE yn y dyfodol, cymorth gan y Llywodraeth a'r fframwaith rheoleiddiol yn y dyfodol. Mynegwyd

pryderon gwirioneddol y byddai rhan y Gweinyddiaethau Datganoledig yn llunio Brexit yn gyfyngedig a'r bod yn bosibl y gallai'r Bil Diwygio arwain at leihau pwerau datganoledig.

Cynhelid cyfarfod nesaf y Ford Gron Amgylchedd a Materion Gwledig ar 27 Mawrth 2017.

11. **Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

I dderbyn y Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016 (HCC 740)

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

12. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

a. I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mawrth 2017

Rhodd adroddiad llafar am yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod o'r Pwyllgor:-

- Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor gan Rebecca Mearns, milfeddyg sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda Labordai BioBest, ar brosiect sy'n ymwneud ag Adenocarsinoma'r Ysgyfaint mewn Defaid (OPA). Nod y prosiect oedd datblygu'r prawf gwaed PCR presennol a ddefnyddir yn Labordai Moredun i gael diagnosis o OPA o dan amodau ymchwil. Gallai canfod ffordd fasnachol hyfyw o gael diagnosis o OPA olygu y byddai pecyn profion ar gael cyn bo hir i ffermwyr masnachol. Darganfu'r astudiaeth nad oedd y PCR ar waed yn ddigon sensitif i ganfod OPA ac i'w ddatblygu'n fasnachol; serch hynny, gwnaed ymchwil pellach â phrofion PCR ar swabiau o'r trwyn. Daethpwyd i'r casgliad y gallai profion PCR ar swabiau trwynol, ar ôl archwiliad dilysu pellach, fod yn fasnachol hyfyw o dan amodau penodol. Cafwyd trafodaeth frwd ymhlith aelodau'r Pwyllgor ynghylch datblygu 'Hi Health flockcare' am y gallai fod o fudd mawr i'r diwydiant defaid ac i wella iechyd anifeiliaid.

- Rhoddwyd diweddariad o gynhadledd dechnegol lwyddiannus "CAM Ymlaen" a drefnwyd gan HCC ac a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngholeg Glynllifon. Bwriedid cynnal y gynhadledd nesaf yng Ngholeg Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr, ar 2 Mai 2017.

- Cynnig Prosiect – Cymharu Hyrddod Cymal 2

Rhoddodd Sam Boon, Rheolwr Cig Eidion a Chig Oen AHDB a Gwasanaethau Bridio Signet, gyflwyniad ar yr uchod. Roedd y cymal presennol o Cymharu Hyrddod/RamCompare wedi dangos fod prawf epil yn fasnachol hyfyw yn y DG. Cafwyd hyd i wahaniaethau mewn EBVau rhwng hyrddod - fel y disgwylid rhwng anifeiliaid a rhinweddau genetig uchel ac uchel iawn. Roedd integreiddio data masnachol wedi bod yn bwerus o ran cyfnewid gwybodaeth a mynegwyd diddordeb mawr gan y diwydiant. Mae gan Cymharu Hyrddod Cymal 2 chwe phrif amcan: parhau i weithio gyda'r chwe fferm fasnachol gnewyllol o Gymal 1 pe baent yn cydymffurfio; dewis ffermydd eraill â statws iechyd uchel i ymuno â'r prosiect er mwyn gallu symud hyrddod rhwng ffermydd; datblygu dealltwriaeth newydd am EBVau a chynyddu gweithgaredd KE; cynnal profion pellach ar EBVau newydd; casglu data o safleoedd cnewyllol a sefydlu ffermydd ategol ar gyfer data; ymgysylltu â bridwyr hyrddod, ymgysylltu â chynhyrchwyr masnachol er mwyn iddynt ddeall y prosiect a defnyddio EBVau. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cefnogi'r prosiect pe bai digon o arian ar gael.

b. <u>I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Rhagfyr 2016 (HCC 741)</u>

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Rhagfyr 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

13. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch Rhaglen y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020</u>**

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn dal i ddatblygu ffordd o gyfnerthu gweithgareddau wedi eu hariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig yn un Fenter Strategol Amaethyddol a fyddai'n ganolog ar gyfer adolygu busnesau fferm a choedwigaeth ac yn eu galluogi i gael hyd i gymorth. Cynrychiolwyd HCC ar Grŵp Gweithredol a sefydlwyd i'r diben hwn, ac mewn cyfarfod ar 13 Chwefror 2017 rhoddodd gyflwyniad i'r Grŵp ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer blaenoriaethau a thargedau'r sector cig coch hyd at 2020. Cynhelid cyfarfodydd pellach er mwyn helpu i ganfod meysydd blaenoriaethol a sut i ymdrin â nhw.

14. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*<u>Diweddariad ar EIDCymru</u>*

Roedd EIDCymru yn dal i weithio'n dda yn weithredol.

Cafodd EIDCymru ei ganmol gan y Bwrdd am yr adborth positif a gafwyd gan y diwydiant ac am y modd y cyflwynwyd y Stocrestr Flynyddol.

*Cais i Lywodraeth Cymru – gwell rhaglen datblygu allforion*

Nodwyd bod HCC wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol o £1.5m tuag ar weithgareddau allforio dros gyfnod o dair blynedd. Ni chafwyd ateb mor belled.

*Y Cadeirydd a'r Aelodau Bwrdd sy'n Ymadael*

Roedd y Cadeirydd a'r Aelodau Bwrdd a oedd yn ymadael am nodi y bu'n anrhydedd gwasanaethau ar Fwrdd HCC ac roeddynt am ddymuno'n dda i'r sefydliad a'r staff ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr a'r staff am y berthynas waith ragorol a fu gyda'r Bwrdd a gobeithid y byddai HCC yn parhau i fod yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd i ddod.

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 11 Mai 2017.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**